**SchoolBeat.cymru**

**RHAGLEN GRAIDD CYSWLLT YSGOLION CYMRU GYFAN**

**AMLINELLIAD GWERS** **Stori Griff**

**LLINYN Diogelwch a Diogelu** **PWNC Camfanteisio Rhywiol ar Blant** **Cynfod Allweddol 2 (Uchaf)**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cynnwys hawliau plant a phobl ifanc i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a chamfanteisio. Mae holl blant a phobl ifanc o bosib mewn risg o gael eu cam-drin yn rhywiol. Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae mewn lleihau'r risg hwn. Drwy edrych ar nodweddion perthynas ddiogel ac iach, gall swyddogion gynorthwyo dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau i nodi risgiau posibl, cadw'n ddiogel a cheisio cymorth os oes angen.

Dylai'r wers ar berthynas fwy diogel gael ei chyflwyno fel rhan o raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac addysg rhyw a pherthynas yr ysgol. Dylai fod yn gyson gyda pholisi addysg rhyw'r ysgol a'r fframwaith gwerthoedd a gytunwyd ar gyfer addysg rhyw a pherthynas. Sicrhewch fod y wers yn briodol ar gyfer anghenion dysgwyr o ran eu hoedran, aeddfedrwydd, iaith/lluniau a ddefnyddir, a'r ddealltwriaeth angenrheidiol. Ymhellach at hyn, cyflwynir y wers hon ond os yw athro yn bresennol yn yr ystafell ddosbarth bob amser.

**Dylai swyddogion sicrhau eu bod wedi trafod cynnwys y wers gyda'r athro dosbarth ac ystyried unrhyw blant a all fod yn fregus i gynnwys y wers. Dylai'r athro a staff eraill yr ysgol sydd â chyswllt rheolaidd gyda'r plant gyfranogi'n llawn yn y wers.**

Mae cyngor pellach ar ddysgu pynciau sensitif ar gael ar wefan Addysg Bersonol a Chymdeithasol drwy ddilyn y ddolen i 'dysgu am bynciau sensitif' ar http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?lang=en

**Cysylltiadau gydag Addysg Bersonol a Chymdeithasol – canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 2**

**Sgiliau → Datblygu Meddwl –** Ffurfio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus

**Sgiliau → Datblygu Cyfathrebu –** Gwrando'n ofalus, cwestiynu ac ymateb i eraill – Mynegi eu safbwyntiau a'u syniadau'n hyderus drwy ystod o ddulliau priodol – Cyfrannu at drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon

**Sgiliau → Gweithio gydag Eraill –** Cydsynio â phrofiadau a theimladau pobl eraill – Gofyn am gymorth a chyngor personol

**Ystod →Dinasyddiaeth Weithredol –** Datblygu parch i'w hunain ac eraill – Gwerthfawrogi teuluoedd a chyfeillion fel ffynhonnell cymorth cilyddol – Deall eu hawliau, e.e. Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn, a chyfrifoldebau.

**Ystod → Iechyd a Llesiant Emosiynol** – Deall pwysigrwydd diogelwch personol – Deall sut i wahaniaethu rhwng cyffwrdd priodol ac amhriodol – Beth i'w wneud a phwy i fynd atynt pan ydych yn teimlo'n anniogel

**Ystod → Datblygiad Moesol ac Ysbrydol –** Deall fod pobl yn wahanol yn beth maent yn ei gredu sy'n dda a drwg

**Cysylltiadau gyda Llythrennedd a Rhifedd**

**Blwyddyn 5**

**Llafaredd ledled y cwricwlwm → Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau → Gwrando**

- ymateb yn feddylgar i eraill, holi cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwyr

**Llafaredd ledled y cwricwlwm → Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau → Cydweithio a Thrafod**

- cyfrannu at drafodaethau grŵp, cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am gwblhau'r gorchwyl yn dda, e.e. cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi.
- Creu a datblygu syniadau eraill mewn trafodaethau grŵp, e.e. drwy holi cwestiynau i edrych ymhellach, cynnig mwy o syniadau.

**Blwyddyn 6**

**Llafaredd ledled y cwricwlwm → Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau → Gwrando**

- Ymateb i bobl eraill gyda chwestiynau a sylwadau gyda chanolbwynt ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf.

**Llafaredd ledled y cwricwlwm ⍰ Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau → Cydweithio a Thrafod**

- Cyfrannu'n benderfynol i drafodaethau grŵp i gyflawni canlyniadau a gytunwyd.
- Dilyn pwyntiau mewn trafodaethau grŵp, gan gytuno ac anghytuno wrth roi rhesymau.

| | |
|---|---|
| **Cysylltiad â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**<br>**Erthygl 13** – Yr hawl i wybodaeth<br>**Erthygl 16** – Yr hawl i breifatrwydd<br>**Erthygl 19** – Ni ddylech gael eich anafu a dylech gael ei gofalu amdanoch a'ch diogelu<br>**Erthygl 29** – Yr hawl i ddatblygu personoliaeth, doniau a gallu meddyliol a chorfforol y plentyn i'w llawn botensial.<br>**Erthygl 34** – Dylai'r Llywodraeth warchod plant rhag camdriniaeth rywiol<br>**Erthygl 36** – Dylech gael eich gwarchod rhag pethau sy'n eich niweidio | Mae'r adnodd hwn yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu hagweddau at **Lesiant** a **Gofal, Cymorth ac Arweiniad** fel sy'n ofynnol gan Fframwaith Arolygon Cyffredin ESTYN 2017.<br>Mae hefyd yn adlewyrchu'r egwyddorion a osodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Y Gyfraith**<br>**Deddf Plant 1989 Deddf Addysg 2002**<br>Cadarnhawyd **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989** (CU, 1989) gan y DU ar 16 Rhagfyr 1991. | **Diogelu plant: gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004** (Llywodraeth Cymru, 2006)<br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014<br>Diogelu Dysgwyr (2015) |

| | |
|---|---|
| **Canlyniadau Dysgu** | • Eich cynorthwyo i ddeall a gwrthod camfanteisio ar blant<br>• Adnabod yr arwyddion nad yw rhywbeth yn iawn<br>• Cydnabod na ellir ymddiried ym mhawb<br>• Mae gwybod y Gyfraith yn amddiffyn plant a phobl ifanc<br>• Gwybod sut i ddweud wrth oedolyn rydych yn ymddiried ynddynt pan mae sefyllfa yn anghyffordus<br>• Gwybod lle i fynd am gymorth |
| **Meini Prawf Llwyddiant** | Erbyn diwedd y wers, fe wnewch ddysgu:<br>• Beth a olygir gan gamfanteisio ar blant<br>• Sut i adnabod yr arwyddion nad yw rhywbeth yn iawn<br>• Sut i gydnabod na ellir ymddiried ym mhawb<br>• Bod y Gyfraith yn amddiffyn plant a phobl ifanc<br>• Sut i ddweud wrth oedolyn rydych yn ymddiried ynddynt pan mae sefyllfa yn anghyfforddus<br>• Lle i fynd am gymorth |
| **Adnoddau** | 1. PowerPoint<br>2. Cardiau dangos geiriau allweddol<br>3. Cerdyn dangos Diffiniad o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant<br>4. Fideo *Stori Griff* Rhan 1 a Rhan 2<br>5. Cardiau Lluniau<br>6. Amlinelliad o'r Blociau Adeiladu<br>7. 6 Set o Gardiau Datganiadau Blociau Adeiladu |

| | |
|---|---|
| | 8. Cerdyn Cyfraith Wybodaeth Swyddog<br>9. Prennau mesur i'w dosbarthu ar ddiwedd y wers |
| **Geiriau allweddol** | camdriniaeth paratoi at bwrpas rhyw rheolaeth cam-fanteisio |
| **Diffiniad** | Camfanteisio ar Blant yw pan mae rhywun yn dod yn gyfaill i blentyn, eu cam-drin a'u camfanteisio, eu rhwydo a'u rheoli am ddiben troseddol neu rywiol. |

| **Amlinelliad o'r Wers** | **Gweithgarwch** | **Disgrifiad** | **Amseru** |
|---|---|---|---|
| Mae'r wers wedi'i llunio i fod yn 60 munud o hyd. | Cyflwyniad | Cyflwyno rheolau sylfaenol. Amlinellu'r canlyniad dysgu a'r meini prawf llwyddiant | 5 mun |
| | Asesu gwybodaeth a dysgu | Cyfeirio at wersi blaenorol. Trafod y wers 'Ffrind neu Elyn' a gofyn i ddisgyblion ddweud wrthych beth maent wedi'i ddysgu | |
| | Gweithgarwch 1 | Ffilm Rhan 1 | 5 mun |
| | Gweithgarwch 2 | Cardiau Lluniau | 15 mun |
| | Gweithgarwch 3 | Egluro Camfanteisio | 5 mun |
| | Gweithgarwch 4 | Ffilm Rhan 2 | 7 mun |
| | Gweithgarwch 5 | Datganiad Blociau Adeiladu | 15 mun |
| | Cymorth a gwybodaeth bellach | Athro, Unigolyn Diogelu Dynodedig (DSP), Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu, oedolyn a ymddiriedir ynddynt, schoolbeat.cymru, Childline, Meic Cymru, Gwefan CEOP Riportio Cam-drin Ar-lein www.ceop.police.uk | 4 mun |
| | Adolygu ac asesu dysgu | Crynhoi ac asesu cynnydd disgyblion drwy weithio mewn parau a holi.<br>Adolygu amcanion ac asesu canlyniadau disgyblion. | 4 mun |
| | Adlewyrchiad | Annog dysgwyr i feddwl ac adlewyrchu ar eu dysgu drwy gwblhau'r ddedfryd, "Heddiw, rwyf wedi dysgu am…" | |

Heddlu Gwent © Gwent Police – 2019